Mae angen i'r sector gelfyddydol yng Nghymru newid a chydnabod hiliaeth systemig a sefydliadol. Mae'r mwyafrif o nawdd a chyfleoedd yn dal i fynd i gyfeiriad cyfungyrff wedi'u harwain gan bobl gwyn, ac mae'r nawdd ei hun yn dod o gyfungyrff wedi'u harwain gan bobl gwyn. Ar bob lefel mae yna ddiffyg cynrychiolaeth ac yn amlach na pheidio does gan bobl o liw o fewn y celfyddydau mo'r cyfrwng na'r gallu i wneud penderfyniadau i wireddu'r newid y maent yn amlwg yn gweld yr angen sylfaenol ar ei gyfer.

Does dim angen i ni glywed nad yw hyn yn flaenoriaeth ar y funud a dyden ni ddim am i'r sgwrs gael ei ychwanegu i'r golofn 'UFP' yn eich cyfarfodydd. Does dim angen addewidion arnon ni y dewch chi at hyn yn fuan. Yr hyn yr ydyn ni oll ei angen, ar y cyd, yw newid gwirioneddol, yn nawr ac yn yr hir dymor, ill dau.

Er mwyn gwneud hynny, mae angen gwagleoedd diogel arnon ni, wedi'u harwain gan bobl o liw, i benderfynnu ar y cyd y math o newid yr ydyn ni ei angen. Mae angen i'r sgwrs yma ddigwydd yn nawr ac mae angen dechrau newid yn syth, ond mae'n rhaid i ni, fel sector, barhau'n ymrwymedig i newid pellach a sgyrsiau pellach yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Rydyn ni eisiau gweithio gyda'n gilydd i gyd-drefnu ein ymateb i noddwyr celfyddydol, cyfungyrff celfyddydol a phobl mewn safleoedd o bwer a braint. Rydyn ni eisiau creu gwell dealltwriaeth o'r hyn yr ydyn ni ei angen, beth y gallwn ni ei gynnig a beth sy'n deg ac yn anheg i'w ddisgwyl gan bobl o liw yn ystod y cyfnod hwn ac yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae cynulliad fechan wedi dechrau'r sgwrs, dan faner 'Tasglu Diwylliant a Hil Cymru'. Mae wedi tyfu'n gyflym ac yn organig, ac rydyn ni wedi creu **Cynllun 6 Phwynt** sy'n fan cychwyn ar gyfer trafodaethau pellach (yn atodedig). Ond mae angen i ni agor y drafodaeth i gynnwys lleisiau'r rheiny sydd y tu allan i'n rhwydweithiau uniongyrchol, a chanfod ffyrdd i gefnogi gweithwyr creadigol hunan-gyflogedig a llawrydd i fedru ymuno â ni.

Rydyn ni angen yr arian i fedru talu pobl am eu hamser yn deg ac rydyn ni angen talu ar gyfer costau hygyrchedd i alluogi unigolion i gyfrannu'n llawn.

Rydyn ni'n holi am gyfraniadau tuag at y gwaith yma gan gyfungyrff ac unigolion wedi'u harwain gan bobl gwyn ac fe dderbyniwn ni gyfraniadau o unrhyw faint. Fel meincnod, rydyn ni'n holi am gyfraniadau o £600. Bydd yr arian yma yn cael ei berchenogi ac yn cael ei ailddosbarthu gan Fio i'r bobl llawrydd a'r rheiny ar gytundebau rhan-amser fydd yn cefnogi'r drafodaeth hon. Bydd y broses yn cael ei reoli gan Gyfarwyddwr Artistig Fio, Abdul Shayek ac aelodau eraill o'r tim.

Mae'r holl gyfungyrff ac unigolion a restrir isod wedi gwneud llw i gefnogi pobl o liw llawrydd ac/neu hunan-gyflogedig i gyfrannu tuag at drafodaethau Tasglu Hil & Chymru eisoes. Rydyn ni'n gwahodd cyfungyrff pellach i addo eu cefnogaeth ariannol tuag at y Tasglu Hil & Chymru.

Ty Cerdd

Theatr Iolo

Celfyddydau & Busnes Cymru

Artes Mundi

National Theatre Wales

Cyfraniadau gan unigolion

Canolfan Mileniwm Cymru

No Fit State Circus

**Beth yw Tasglu Diwylliant & Hil Cymru?**

Ar hyn o bryd, grwp o gyd-weithwyr o fewn y sector o gyffelyb fryd yw Tasglu Diwylliant a Hil Cymru, sydd eisiau sicrhau ein bod ni'n:

- Amlygu ac yn tynnu sylw at y diffyg hirfaith o Amrywiaeth DALIE o fewn y sector gelfyddydol Gymreig
- Crynhoi rhestr o syniadau gweithredol a realistig y gall y sector ac asiantaethau datblygu eu mabwysiadu ar frys
- Amddiffyn statws Amrywiaeth yn benodol blaenoriaethau sy'n ymwneud â Hil yng Nghymru pan fydd COVID-19 drosodd ac y gallwn deimlo'r effeithiau llawn ar draws y sector
- Canfod ffyrdd i ddal pobl a chyfungyrff yn gyfrifol am ddiffyg gweithrediad ac ymrwymiad
- Rydyn ni eisiau annog a chefnogi grwpiau gweithred eraill i archwilio nodweddion gwarchodedig eraill (Anabledd, yr Iaith Gymraeg ayyb) a byddwn yn annog hyn yn weithredol
- Rydyn ni eisiau creu Ardystiad o Undod a Dilyniant, y bydd angen i unigolion a chyfungyrff arwyddo i fyny ar ei gyfer
- Rydyn ni eisiau bwydo i fewn i unrhyw drafodaeth ehangach ynglyn ag adferiad, boed ar draws y DU neu'n benodol o fewn y Llywodraeth Gymreig - rydyn ni am gael sedd wrth y bwrdd

Cysylltwch ag Abdul Shayek ar abdul@wearefio.co.uk i addo cefnogaeth ariannol.

Senedd Cymru / Welsh Parliament
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee
Ymchwiliad i'r achosion o COVID-19 ac effaith y feirws ar ddiwylliant, y diwydiannau creadigol, treftadaeth, cyfathrebu a chwaraeon / Inquiry into the COVID-19 outbreak and its impact on culture, creative industries, heritage, communications and sport
CWLC COV59
Ymateb gan Tasglu Diwylliant a Hil Cymru / Response from The Wales, Culture and Race Taskforce

Yn Gywir,

Tasglu Diwylliant a Hil Cymru